
# GAVIN JENKINS

## CLWB PÊL DROED TON PENTRE A CHLWB PÊL-DROED BAGLAN

Mae Gavin wedi sefydlu tri thîm pêl-droed i blant bach yng Nghlwb Pêl-droed Ton Pentre. Mae hyn yn golygu bod gan y clwb adrannau i blant bach a phlant hŷn am y tro cyntaf yn ei hanes. Mae 30 o blant yn chwarae i'r timoedd Dan 5, 6 a 7 oed. Mae Gavin yn cydlynu'r hyfforddwyr, yn trefnu ac yn cynllunio sesiynau hyfforddi, gan sicrhau bod yr holl chwaraewyr yn mwynhau'r pêl-droed. Eleni, mae Gavin hefyd wedi sefydlu sesiwn Pêl-droed Cerdded yn y clwb, sy'n croesawu pobl o bob oed a gallu. Yn ogystal â hyn, mae Gavin yn treulio tua 6 awr yr wythnos yn y clwb, yn arwain grŵp o wirfoddolwyr sy'n cynnal a chadw'r cae. Mae e'n torri'r gwair, hoelio'r cae a phaentio’r llinellau'n barod ar gyfer gemau.

Mae Gavin hefyd yn rhoi o'i amser i wirfoddoli yng Nghlwb Pêl-droed Baglan, lle mae e'n ysgrifennydd ac yn rheolwr y tîm. Mae'n treulio nifer fawr o oriau bob wythnos mewn sesiynau hyfforddi a gemau, ac yn cwblhau tasgau tu hwnt i'r cae chwarae, fel cynllunio sesiynau a chyfathrebu gyda chwaraewyr.




Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# GWIRFODDOLWR Y MIS

## TACHWEDD 2024